**SEWR-01-03 (min)**

## PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 24 Ionawr 2003 |
| **Amser:** | 9.30am i 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Canolfan Hamdden Abertyleri |

**Yn Bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Owen John Thomas (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |

| | |
|---|---|
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful & Rhymni |
| David Rhys Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Lynn Phillips | Pennaeth Gwasanaethau Hamdden, cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Sara Butlin | Cyfarwyddwr Datblygu Lleol, Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Jon Morgan | Cyfarwyddwr, Ffederasiwn Cymdeithasau Chwaraeon yr Anabl |
| Nigel Way | Swyddog Datblygu Cymunedol, Clwb Rygbi Glyn Ebwy |
| Mark Aizlewood | Cyfarwyddwr Technegol, Cymdeithas Pêl-droed Cymru - Ymddiriedolaeth Pêl-Droed yn y Gymuned |
| Rhodri Glyn Thomas AC | Cadeirydd, Y Pwyllgor Diwylliant |

*Yr Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol ac Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch bod y Pwyllgor Rhanbarth wedi dychwelyd i'r etholaeth hon ym Mlaenau Gwent. Estynnodd ddiolch i reolwyr Canolfan Hamdden Abertyleri am gael defnyddio'u hadnoddau ac am eu cymorth. Croesawodd gynrychiolwyr y cyrff a'r mudiadau amrywiol ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a gwahoddodd Peter Law, AC yr etholaeth, i ddweud ychydig eiriau.

1.2 Croesawodd Peter Law bob un i etholaeth Blaenau Gwent ac i Ganolfan Hamdden Abertyleri. Croesawodd hefyd Rhodri Glyn Thomas i’r cyfarfod. Ychwanegodd bod Blaenau Gwent yn etholaeth sydd o dan anfantais ond bod chwaraeon wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu i adfywio'r ardaloedd ac adeiladu cymunedau.

1.3 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Peter Black, David Davies, Ron Davies, Sue Essex, Janice Gregory, John Griffiths, Brian Hancock, Jonathan Morgan, Rhodri Morgan, Jenny Randerson a Phil Williams.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2002 SEWR-05-02(min)**

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2002.

**Eitem 3: Trosolwg o Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o Chwaraeon**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Rhodri Glyn Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, a gofynnwyd iddo i roi ei gyflwyniad.

3.2 Esboniodd Rhodri Glyn Thomas gylch gorchwyl yr Adolygiad o Chwaraeon sy'n cael ei gynnal gan y Pwyllgor Diwylliant. Nododd y byddai unrhyw sylwadau a fynegwyd gan yr Aelodau yn cael eu bwydo i'r broses. Amgaeir cylch gorchwyl yr adolygiad yn atodiad 1.

3.3 Ychwanegodd bod nifer o themâu wedi dod i'r amlwg o'r adolygiad hyd yn hyn:

- Pwysigrwydd gweithgareddau corfforol i iechyd
- Magu awydd / arfer ymysg plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.
- Cynnig dewisiadau amgenach i'r chwaraeon traddodiadol mewn ysgolion er mwyn sicrhau nad yw unigolion (yn enwedig merched) yn troi eu cefn ar chwaraeon.
- Cynnig cyfleoedd i'r plant hynny nad ydynt yn cyrraedd safon y timoedd cyntaf, i gymryd rhan
- Rhoi cyfle i bobl sy'n gadael ysgol i barhau i gymryd rhan mewn chwaraeon
- Pwysigrwydd gwirfoddolwyr a hyfforddwyr
- Buddiannau gweithgareddau corfforol i bobl hn

3.4 Gofynnodd Rhodri Glyn Thomas am sylwadau ar yr adolygiad ac ychwanegodd y byddai'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfarfod yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad. Byddai'r adroddiad yn cael ei drafod yn y cyfarfod llawn ar 1 Ebrill.

**Eitem 4: Cyflwyniadau ar yr Adolygiad o Chwaraeon**

4.1 Gwahoddwyd **Lynn Phillips, Pennaeth Gwasanaethau Hamdden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** gan y Cadeirydd i roi ei gyflwyniad.

4.2 Cyflwynodd Lynn Phillips ei adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar Strategaeth Chwaraeon a Hamdden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar gyfer 2000 - 2005. Amgaeir copi yn Atodiad 2. Pwysleisiodd y canlynol yn ei gyflwyniad:

- Yr oedd penodi Swyddog Datblygu Chwaraeon wedi sicrhau bod chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn cael eu defnyddio fel arf positif ar gyfer lleihau lefelau tor-cyfraith ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, yn ogystal â chyfrannu at bolisi cynhwysiant cymdeithasol yr awdurdodau. Yr oedd y gwaith allgymorth yn y cymunedau wedi chwarae rhan bwysig wrth ddenu pobl at chwaraeon.
- Cynaliadwyedd - cafodd y ddarpariaeth ei rhoi yn nhrefn blaenoriaeth ac roedd yr Uned Datblygu Chwaraeon wedi cael y cyfrifoldeb am ddiogelu'r ddarpariaeth honno dros y 25 mlynedd nesaf.
- Yr oedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent berthynas ffrwythlon a llwyddiannus gyda Chyngor Chwaraeon Cymru, perthynas a fu yn fuddiol i'r ardal.
- Yr oedd y ceisiadau llwyddiannus diweddar am arian Sportlot yn cynnwys £1.25 miliwn ar gyfer Canolfan Hamdden Tredegar, £0.5 miliwn ar gyfer Canolfan Hamdden Glyn Ebwy a chymeradwyaeth am £1.5 miliwn tuag at symud Canolfan Hamdden Abertyleri i gampws yr Ysgol Uwchradd. Derbyniwyd £1.83 miliwn oddi wrth y Gronfa Cyfleoedd Newydd a chaiff ei roi tuag at raglenni chwaraeon ac Addysg Gorfforol ysgolion.

3. Gwahoddwyd **Sara Butlin, Cyfarwyddwr Datblygu Lleol, Cyngor Chwaraeon Cymru** gan y Cadeirydd i roi ei chyflwyniad.

4.4 Mae copi o gyflwyniad Sara Butlin a oedd yn canolbwyntio ar gyfranogiad menywod a merched mewn chwaraeon yn Atodiad 3. Pwysleisiodd y canlynol yn ei chyflwyniad:

- Blaenoriaeth sylfaenol i gynyddu lefelau cyfranogiad gan fenywod a merched yw newid agweddau a datblygu'r arfer o sicrhau bod chwaraeon/ymarfer corff yn rhan o fywyd bob dydd. Byddai hyn yn canfod pa faterion oedd yn denu merched i chwaraeon a pha chwaraeon.
- Yn ôl yr ystadegau mae llai o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn Ne Ddwyrain Cymru nag yng ngweddill y wlad ac mae angen targedu'r ardal er mwyn annog mwy o gyfranogiad.
- O fewn ardal De Ddwyrain Cymru, mae lefelau cyfranogiad saith o awdurdodau lleol yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Yn yr ardal mae cyfranogiad gan fenywod a merched yn is na nifer y bechgyn a dynion

ac un o amcanion Cyngor Chwaraeon Cymru yw lleihau'r bwlch.

- Canfuwyd bod rhwystrau yn bodoli yn yr ysgolion, o fewn cymunedau a'r ddelwedd o chwaraeon a'r unigolion sy'n helpu i gynnal gweithgareddau chwaraeon.
- Mae Cymunedau yn Gyntaf yn sicrhau bod chwaraeon lleol a hamdden yn cael eu trafod. Mae sefydlu/gwella'r adnoddau wedi helpu gyda'r broses o adfywio'r cymunedau sydd dan yr anfantais fwyaf.
- Dros y 30 mlynedd diwethaf mae'r stoc adnoddau yng Nghymru wedi cynyddu'n helaeth. Rhaid sicrhau bod yr adnoddau o fewn cyrraedd pob grp yn yr ardal.

4.5 Croesawodd y Cadeirydd **Nigel Way, Swyddog Datblygu Cymunedol Clwb Rygbi Glyn Ebwy** a gofynnwyd iddo roi ei gyflwyniad. Amgaeir copi yn Atodiad 4.

4.6 Yna, gofynnodd y Cadeirydd i **Jon Morgan, Cyfarwyddwr, Ffederasiwn Cymdeithasau Chwaraeon yr Anabl** roi ei gyflwyniad.

7. Seiliodd Jon Morgan ei gyflwyniad ar Gynllun Strategol Ffederasiwn Cymdeithasau Chwaraeon yr Anabl ar gyfer 2002 - 2004 - amgaeir copi yn Atodiad 5. Pwysleisiodd y rhwystrau canlynol oedd yn wynebu'r anabl wrth geisio manteisio ar adnoddau chwaraeon:

- Cludiant yn y cymunedau. Mae angen adolygu'r ddarpariaeth o gerbydau a addaswyd a'r defnydd a wneir ohonynt yn enwedig y tu allan i'r amserau arferol.
- Rhaid sicrhau nad oriau anghymdeithasol yn unig a gynigir ar gyfer yr anabl.
- Hyfforddiant - rhaid sicrhau bod staff yn y cyfleusterau wedi derbyn hyfforddiant digonol ar gyfer bod yn ymwybodol o anghenion yr anabl a bod awyrgylch addas wedi ei greu yn y cyfleusterau.
- Mae angen cadw gwirfoddolwyr a denu rhai newydd i helpu'r anabl i gymryd rhan mewn chwaraeon. Derbyniwyd £50,000 oddi wrth yr UE a chaiff yr arian yn ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar y maes hwn yn ystod y 12 mis nesaf.
- Yr oedd yn hanfodol ein bod yn marchnata cyfleusterau ac yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, adrannau addysg a grwpiau eraill i'r anabl.

7. Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r siaradwr olaf, **Mark Aizlewood, Cyfarwyddwr Technegol, Ymddiriedolaeth Pêl-droed yn y Gymdeithas, Cymdeithas Pêl-droed Cymru,** a gofynnwyd iddo roi ei gyflwyniad.
8. Dywedodd Mark Aizelwood bod Cymdeithas Pêl-droed Cymru wedi sefydlu'r Ymddiriedolaeth er mwyn datblygu Pêl-droed ledled Cymru. Mae'r ymddiriedolaeth gwbl ar wahân oddi wrth y Gymdeithas Pêl-droed. Flwyddyn yn ôl, lansiodd Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon, y Fforwm Pêl-droed, a anelwyd at blant rhwng 6 a 16 oed. Hyd yn hyn, mae 17 o'r

22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi penodi swyddogion llawnamser i ddatblygu pêl-droed ac mae'r gweddill wedi penodi swyddogion rhan amser. Penodwyd swyddogion hefyd i dargedu cyfranogiad menywod a merched mewn pêl-droed. Mae'r Fforwm wedi llunio strategaeth bendant y cytunwyd arno gan Gyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Cymdeithas Pêl-droed Cymru a derbyniodd £1.3 miliwn oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru dros 3 blynedd.

9. Cyflwynodd ei adroddiad, amgaeir copi yn Atodiad 6.
10. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr i gyd am eu cyflwyniadau ardderchog.

**Eitem 5: Sesiwn Meicroffôn Agored**

5.1 Rhoddodd yr Aelodau sylwadau ar y cyflwyniadau ardderchog a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae menywod yn wynebu problemau wrth gymryd rhan o ganlyniad i ymrwymiadau a chyfrifoldebau teuluol a theimlwyd bod angen ymgyrch radical er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb sylfaenol hwn.
- Mae cerdded yn bwysig. Nid yw plant yn cerdded digon o ganlyniad i ofn sydd wedi cael ei greu ynddynt ac yn aml maent ofn cerdded yng nghefn gwlad. Mae angen annog cerdded fel gweithgaredd hamddenol heb ofni'r amgylchedd. Nodwyd bod llawer o diroedd y Comisiwn Coedwigaeth yn yr ardal a bod angen mwy o arwyddion ar eu cyfer.
- Awgrymwyd rhoi'r teitl *Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol* ar adolygiad y Pwyllgor Diwylliant - gan fod cerdded, dawnsio, iechyd a chadw'n heini yn ffactorau pwysig yn y maes.
- Dymuna rhai weld pa dystiolaeth a ddefnyddiodd Cyngor Blaenau Gwent wrth ganfod safon y llwyddiant ar gynyddu nifer y menywod sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.
- Gofynnwyd pam nad oedd Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cefnogi cais Casnewydd ar gyfer cael pwll nofio wyth lôn.
- Cafwyd neges glir bod gan Dde Ddwyrain Cymru broblem o ran cyfranogiad isel o'i gymharu â gweddill Cymru ac o fewn yr ardal ei hun. Ac eithrio Blaenau Gwent, yr oedd y cymoedd ar waelod y gynghrair ac roedd ffyniant yr ardaloedd yn ymwneud â hyn. Croesawyd yr arian oddi wrth Sportlot ond pwysleisiwyd bod angen cyfleusterau ar y cymunedau oedd o dan anfantais.
- Cydnabyddwyd bod angen llongyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar lwyddiant eu strategaeth a'r ymdrechion a wnaed er mwyn cynyddu cyfranogiad a darparu adnoddau.
- Angen cynyddu'r dewis ac amrywiaeth o chwaraeon nid cynnig rygbi yn y gaeaf a chriced/athletau yn yr haf yn unig. A gynigir pêl-droed ym mhob ysgol?
- Cydnabyddwyd gwaith ardderchog clybiau'r Bechgyn a Merched, sydd fel arfer wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd o dan anfantais. Mae'r clybiau hyn wedi gwneud llawer o waith gyda chwaraeon a phobl ifanc 7-20 oed. Gwirfoddolwyr sy'n rheoli'r clybiau ac

awgrymwyd y dylai'r Cynulliad gydnabod y gwaith a wneir gan y Clybiau.

- Mae'n bwysig bod cyfleusterau yn ardaloedd y cymoedd o fewn cyrraedd ac nad yw'r cymunedau bach wedi eu cyfyngu i un cyfleuster yn unig o achos maint y dalgylch.
- Gwelwyd cysylltiadau profedig rhwng gweithgareddau corfforol a iechyd a dylid annog pob un ohonom i wneud rhywfaint o ymarfer corff. Yr oedd yn bwysig bod y ddelwedd gywir yn cael ei marchnata ar gyfer grwpiau megis merched yn eu harddegau.
- Mae Cymunedau yn Gyntaf yn fenter bwysig gan y Cynulliad i helpu adfywio'r ardaloedd sydd o dan anfantais fwyaf. Mae'n bwysig ein bod yn cynnwys chwaraeon yn y rhaglenni.

2. Mewn ymateb, dywedodd y panel:

- Cydnabyddwyd y problemau oedd yn wynebu menywod oedd â chyfrifoldebau teuluol ac yn dymuno neilltuo amser ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon a dyma her sylfaenol i Gyngor Chwaraeon Cymru. Cydnabyddwyd hefyd byddai angen ymdrech anferthol er mwyn sicrhau'r newidiadau hyn.

- Bydd Cyngor Chwaraeon Cymru yn ail-werthuso cais Casnewydd ar gyfer cael pwll nofio newydd.
- Mae angen canolbwyntio ar yr heriau sy'n wynebu De Ddwyrain Cymru ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod gan drigolion yr ardaloedd hynny lle mae cyfranogiad isel iechyd gwaeth. Mae yna berygl ein bod yn edrych ar y pwyntiau negyddol yn hytrach na'r cadarnhaol. Rhaid i bob asiantaeth gydweithio a llunio agwedd gyd-gysylltiedig ar gyfer rhaglen Cymunedau yn Gyntaf er mwyn sicrhau y defnydd gorau o'r adnoddau.
- Mae angen i ysgolion roi cynllun Addysg Gorfforol ar waith i gynnig mwy o amrywiaeth ac ystod o chwaraeon ac archwilio potensial eu disgyblion. Mae angen cynnig gweithgareddau sy'n addas at anghenion a diddordebau pawb.
- Cytunwyd bod y Clybiau Bechgyn a Merched wedi sicrhau canlyniadau ardderchog ac yn aml dyma'r unig sefydliad sydd wedi gallu cyrraedd pobl ifanc yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Cydnabyddwyd bod angen mynd i'r afael â'r broblem o sicrhau bod cyfleusterau mewn cymunedau bach o fewn cyrraedd.
- Yr oedd angen targedu gweithgareddau corfforol a iechyd er mwyn canolbwyntio arnynt mewn ymgyrchoedd Cyngor Chwaraeon Cymru yn y dyfodol.

2. Nododd Rhodri Glyn Thomas y sylw ynghylch newid teitl yr adolygiad. Ychwanegodd ei fod yn bwysig bod cyfle i bob sector o'r gymuned i gymryd rhan a bod y rhwystrau'n cael eu dymchwel. Mewn perthynas â chwaraeon cyswllt corfforol, cyfeiriodd at y system yn Seland Newydd lle roedd plant yn cystadlu yn erbyn plant o'r un maint yn hytrach nag oed. Cytunodd â'r sylwadau bod pobl oedd yn cymryd rhan mewn ymarfer corff yn iachach.
3. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol gan y gynulleidfa:

- Ym mha ffordd y gellid ariannu a gwella mynediad a chludiant i'r rhai sydd â nam ar eu golwg? Atebodd Jon Morgan drwy ddweud mai cyfrifoldeb darparwyr y gwasanaethau ydoedd mynediad corfforol i'r cyfleusterau. Mae'n rhaid i bob adeilad newydd gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a byddai'n ddefnyddiol i'r asiantaethau gael rhestr wirio dechnegol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion. Mewn perthynas â thrafnidiaeth, teimlwyd bod angen archwiliad er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'r holl gerbydau a addaswyd yn enwedig y tu allan i oriau arferol.
- Mae adnoddau hoci da yng Nghymru, ond ychydig iawn o gyhoeddusrwydd a gaiff hoci o'i gymharu â chwaraeon eraill. A ystyriwyd hoci fel rhan o'r Adolygiad?
- Yn ogystal mae dawns yn weithgaredd corfforol y mae nifer o bobl ifanc yn ei fwynhau ond yn aml nid oes modd i'w fwynhau y tu allan i'r ysgol.
- Cytunodd y panel bod hoci a dawns yn bwysig ond dywedwyd nad oedd modd sôn am bob gweithgaredd yn ystod y cyflwyniadau. Ychwanegodd Lynn Philllips y caiff hoci ei chwarae mewn nifer o leoliadau ym Mlaenau Gwent a bod ei adran chwaraeon yn cydweithio â Chymdeithas Hoci Cymru er mwyn cynyddu cyfranogiad.
- A yw'r Pwyllgor yn credu y dylai'r mater o werthu caeau chwarae gael blaenoriaeth gan y Cynulliad oherwydd ei fod yn amlwg yn effeithio ar lefelau cyfranogiad?. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn bwynt pwysig oherwydd unwaith y caiff cae chwarae ei werthu ar gyfer datblygu, nid oes modd hawlio'r tir yn ôl. Nodwyd nad oedd Cymru wedi colli llawer o gaeau chwarae o gymharu ag ardaloedd eraill o'r Deyrnas Unedig.
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu pwll nofio a fydd yn denu athletwyr cystadleuol yn Nwyrain Cymru? Dywedodd Sara Butlin, bod Cyngor Chwaraeon Cymru wedi neilltuo arian ar gyfer Pwyll Maendy yng Nghasnewydd a'i fod yn ailystyried y cais ar gyfer pwll wyth lôn yn ardal Casnewydd.
- Yr oedd yn fwriad sefydlu academi rygbi ar y lefel uchaf ym Mhen-y-Bont ar Ogwr ond cafwyd cryn wrthwynebiad iddo oherwydd harddwch naturiol yr ardal. Sut fyddech chi'n barnu rhwng y ddwy ochr? Atebodd y panel mai mater i'r swyddog cynllunio lleol oedd hwn. Serch hynny, nodwyd bod diffyg adnoddau dan do yng Nghymru a bod angen mynd i'r afael â'r broblem.
- Beth yw polisi Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer oedolion a'r henoed? Dywedodd Sara Butlin eu bod yn canolbwyntio ar bobl ifanc ar hyn o bryd yn ogystal â chynyddu cyfranogiad i oedolion. Ychwanegodd bod ymgyrch diweddar wedi bod ar gyfer y grp oed 50+.
- Ym mha ran o Abertyleri fydd yr orsaf reilffordd newydd? Dywedodd Peter Law mai'r bwriad ydoedd lleoli'r orsaf wrth ochr safle archfarchnad Tesco.

2. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiynau a/neu sylwadau pellach i'r panel.

- All Cymdeithas Pêl-droed Cymru roi cefnogaeth ariannol i glybiau pêl-droed sy'n wynebu problemau ariannol. Dywedodd Mark Aizlewood bod Cymdeithas Pêl-droed Cymru ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Pêl-droed Cymru yn sefydliadau ar wahân gan ychwanegu

bod yr arian a gaiff yr Ymddiriedolaeth yn cyfateb i 3c/y person a gofrestrwyd ar gyfer chwarae pêl-droed.

- A oes yna strategaeth i ddarparu caeau pêl-droed ychwanegol er mwyn bodloni'r galw? Dywedodd Mark Aizlewood bod archwiliad o nifer y caeau pêl-droed yng Nghymru yn cael ei gynnal. Ychwanegodd bod angen mwy o adnoddau dan-do er mwyn cynnal diddordeb a chydymffurfio â'r rheolau. Dywedodd bod modd defnyddio neuaddau ysgol ar gyfer hyrwyddo pêl-droed mini yn yr ysgol gan felly ryddhau caeau pêl-droed.

5.5 Dywedodd Rhodri Glyn Thomas fod y cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol iawn a byddai'r sylwadau yn cael eu cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor Diwylliant.

5.6 Wrth gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r holl gyflwynwyr ac aelodau'r gynulleidfa am symbylu trafodaeth eang ac adeiladol.

**Eitem 6: Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

6.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Gwener 14 Mawrth yng Nghaerdydd.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Ionawr 2003